**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y
Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

27 Mehefin 2024

Annwyl Rebecca,

Osgoi Treth Gwarediadau Tirlenwi

Ysgrifenasoch at y Pwyllgor ar 18 Hydref 2023, gyda diweddariad ar nifer o faterion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol ar yr Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

Mae un o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad yn nodi bod y bwlch rhwng cyfraddau is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi is a'r cyfraddau safonol wedi cyfrannu at gamddosbarthu gwastraff yn fwriadol. Mewn ymateb i hyn, roedd eich swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid yn Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gynnal prosiect i gael gwell dealltwriaeth o gamddisgrifio gwastraff. Roedd eich llythyr yn nodi bod cam darganfod y prosiect wedi dod o hyd i sawl pwynt yn y gadwyn wastraff ble mae cyfleoedd i gamddisgrifio gwastraff, ac mai'r cam nesaf fyddai ystyried sut y gellir lliniaru'r cyfleoedd hyn.

Yn ystod gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 y llynedd, nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) fod derbyniadau ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn hanner cyntaf 2023-24 yn is £8.8 miliwn (35.3 y cant) o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a bod hyn wedi'i achosi gan ostyngiad yn swm y gyfradd safonol o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

O ystyried yr honiadau diweddar o gamddisgrifio gwastraff er mwyn osgoi talu Treth Gwarediadau Tirlenwi a wnaed yn y rhaglen ddogfen Dispatches, ar Sianel 4, ar 'Rubbish Tip Britain', a ddarlledwyd ar 21 Mehefin 2024, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn darparu'r canlynol:

- esboniad o brosesau cydymffurfio presennol Awdurdod Cyllid Cymru;

- diweddariad ar y prosiect o ystyried camddisgrifio gwastraff;
- manylion unrhyw asesiadau a wnaed ynghylch y swm tebygol o refeniw Treth Gwarediadau Tirlenwi a gollwyd hyd yma o ganlyniad i weithgareddau osgoi treth a/ neu ocheliadau, ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r ymddygiadau hynny.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan. Rwyf hefyd yn anfon copïau o'r llythyr hwn at Awdurdod Cyllid Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.